Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dr Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 635A2013 |
| **Dyddiad** | 27 Tachwedd 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl Mohammed

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 12 Medi 2013, rhoddais fy marn ar b'un a oedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae hefyd yn ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ynghylch p'un a yw Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

**Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.**

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant o dan y Mesur

- cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2012/13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi'n glir sut mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;

- mae'r Adroddiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella a mynegi ei farn yn glir;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion sydd am roi adborth neu wneud sylwadau ar yr Adolygiad;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurir gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol; ac
- mae'r Adroddiad yn cynnwys adran fer ar y ffyrdd y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithio.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid yw'r llythyr hwn yn awgrymu unrhyw gynigion ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu gwaith rheoli perfformiad a chyflwyno adroddiadau'r Cyngor yn ystod y misoedd nesaf ac yn cyflwyno adroddiad arno, yn ogystal â chrynhoi'r holl waith a wnaed gennyf a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14 mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i'r Cyngor, y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Huw Lloyd Jones – Rheolwr

Gwilym Bury – Arweinydd Archwilio Perfformiad